# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA587 - The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) (No.3) Regulations 2015 (Saesneg yn unig)

## Gweithdrefn

Negyddol

## Cefndir

Mae'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/675) ("Rheoliadau 2010") yn bennaf er mwyn atgyfnerthu pwerau presennol Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â throseddau gwastraff a safleoedd sy'n perfformio'n wael yn y diwydiant gwastraff a diwydiannau eraill o fewn y gyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol. Mae'r un pwerau'n ymestyn hefyd i awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â chyfleusterau a reoleiddir y maent yn eu rheoleiddio.

## Craffu Technegol

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2.

Ni chafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud yn ddwyieithog. Mae paragraff 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn datgan nad oedd yn bosibl i'r Rheoliadau gael eu gwneud yn ddwyieithog gan eu bod yn rheoliadau cyfansawdd sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU ac, felly, dywed Llywodraeth Cymru nad yw wedi bod yn bosibl eu gwneud yn ddwyieithog.

## Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn. Os oes pwyntiau, dylid dilyn y drefn uchod.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**13 Hydref 2015**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales